

Research in Practice- Dissertation Proposal

Ymchwil ar Waith- Cynnig Traethawd

Enw Myfyriwr: Emily Sullivan

Rhif Myfyriwr: 1901262

Teitl Cwrs: BA Ffotograffiaeth yn y Celfyddydau

Modiwl: ADAD5004C

Enw Tiwtor: Paul Duerinckx

Cyfrif Geiriau: 2,359

Rhestr Ffigurau

Ffigur 1: Burtynsky, E (2016) *Makoko #2, Lagos, Nigeria, 2016*. [Ffotograff] Ar gael: <https://www.edwardburtynsky.com/projects/photographs/anthropocene>

Ffigur 2: Burtynsky, E (2010) *Greenhouses #2, El Ejido, Southern Spain, 2010*. [Ffotograff] Ar gael: <https://www.edwardburtynsky.com/projects/photographs/anthropocene>

Ffigur 3: Rees, C.N (2021) [Ffotograff] Ar gael: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56933584>

Ffigur 4: Heddlu De Cymru (2021) [Ffotograff] Ar gael: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56933584>

Ffigur 5: Youkilis, S (Dyddiad anhysbys) *The crowd on the beach*. [Ffotograff] Ar gael: <https://www.thecut.com/2019/02/who-killed-tulum.html>

Ffigur 6: Youkilis, S (Dyddiad anhysbys) *The town landfill in the jungle*. [Ffotograff] Ar gael: <https://www.thecut.com/2019/02/who-killed-tulum.html>

Ffigur 7: Youkilis, S (Dyddiad anhysbys) *A seaweed dump*. [Ffotograff] Ar gael: <https://www.thecut.com/2019/02/who-killed-tulum.html>

Ffigur 8: Beltra, D (2009) *Indonesia Rainforest, 48" x 72"*. [Print cromogenig digidol] Ar gael: <https://www.artworksforchange.org/portfolio/daniel-beltra/>

Ffigur 9: Denes, A (1969-79) *Rice/Tree/Burial with Time Capsule*. [Ffotograffau] Ar gael: <http://www.agnesdenesstudio.com/works2.html>

Ffigur 10: Goldsworthy, A (2005) *Sheets of ice. Wedged between river rocks. Dark elm leaves. Torn. Dumfriesshire, Scotland. 7 December 2005*. [Archival Inkjet Print] Ar gael: <http://www.artnet.com/artists/andy-goldsworthy/sheets-of-ice-wedged-between-river-rocks-dark-elm-a-CCsSZKjcERT4Q02b7ym9QA2>

Ffigur 11: Von Wong, B (2019) *The Parting of the Plastic Sea* [Installation] Ar gael: <https://blog.vonwong.com/strawpocalypse/>

Cyd-destun

Yn fy nhraethawd hyr, hoffwn drafod ein cyfnod 'Anthropocene' a chyfraniaeth y byd ffotograffiaeth at hyn. Dwi eisoes wedi teimlo'n angerddol tuag at yr awyr agored ac wedi treulio rhan fwyaf o'n hamser rhydd tu allan ers bod yn ifanc. Ym mhersonol, mae bod yn anialwch yr awyr agored yn rhoi teimlad o berthyn, lle dwi'n teimlo fy hun ac yn gallu meddwl yn fwy clir. Yn y cyfnodau o glirdeb yma, dwi'n dueddol o ddenu ysbrydoliaeth greadigol ac yn cysylltu fy ngwaith ymarferol gyda fy amgylchedd a chyflwr meddwl. Wrth dreulio cymaint o amser tu allan, dwi wedi sylwi dirywiad enfawr ym mharch dynol at lefydd o harddwch a chyflwr ein hamgylchedd.

Byddaf yn ymchwilio i'r 'Anthropocene Epoch', sef y cyfnod o amser lle mae gweithgaredd dynol yn niweidio'r amgylchedd. Hefyd edrychaf ar sut mae'r amgylchedd wedi cael ei effeithio a beth yw ardrawiad ffotograffwyr ac artistiaid at hyn. Penderfynais ymchwilio hyn o achos fy nghysylltiad gyda'r amgylchedd a gan fy mod i'n teimlo fod pwysigrwydd rôl ffotograffiaeth yn recordio newidiadau amgylcheddol yn cael ei anwybyddu neu esgeuluso.

'Anthropocene Epoch'

Mae'r 'Anthropocene Epoch' yn uned answyddogol o amser daearegol sy'n disgrifio'r cyfnod o amser fwyaf ddiweddar lle bod dystoliaeth o niwed anadferadwy i'r

blaned a'i ecosystemau wedi'u hachosi gan bobl (*National Geographic Society, 2019*). Mae gweithgaredd dynol yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, o brif gylchoedd biocemeg y Ddaear i esblygiad bywyd. Er enghraifft, wnaeth y dyfeisied yn yr ugeinfed ganrif o'r broses *Haber-Bosch*, sy'n caniatáu trosi nitrogen atmosfferig i amonia, newid y cylch nitrogen byd-eang yn aruthrol. Cymaint fod y gymhariaeth ddaearregol agosaf yn cyfeirio at ddigwyddiadau tua 2.5 biliwn o flynyddoedd yn ôl (*Lewis & Maslin, 2015:172*).

Mae yna lawer o ddadleuon ynglŷn â phryd ddechreuodd y cyfnod *Anthropocene*. Cytunwyd Grŵp Gweithio'r Anthropocene fod e'n wahanol i'r Holocene ac mae'n debygol wnaeth ddechrau yn 1950 pan gychwynnodd y Cyflymiad Mawr le wnaeth cynnydd dramatig mewn gweithgaredd dynol dechrau effeithio hinsawdd y blaned a'i ecosystemau (*National Geographic Society, 2019*). Er hyn, mae astudiaeth gan 2 athro o brifysgolion Llundain wedi dod i gasgliad fod rhanfwyaf o'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer cychwyniad yr *Anthropocene*, gan gynnwys yr effeithiau dynol eang cynharaf, a'r digwyddiadau hanesyddol fel y Chwyldro Diwydiannol, yn debygol o gael eu gwrthod gan nad ydynt yn deillio o farciwr gydamseriad byd-eang (*Lewis & Maslin, 2015:177*).

Mae'r tirweddau haniaethol yng ngwaith y ffotograffydd *Edward Burtynsky* yn cynnig golwg frawychus ar radd yr effaith dynol ar y Ddaear (*Hatherley, 2018*). Mae grŵp o unigolion wedi creu corff o waith amlddisgyblaeth ar fywyd yn yr 'Anthropocene'. Mae'n cyfuno ffotograffiaeth, celf gain, ffilm, rhith-realiti, realiti estynedig ac ymchwil wyddonol i ymchwilio'r dylanwad dynol ar gyflwr, deinamig a dyfodol y Ddaear. Canlyniad y prosiect yw gasgliad o brofiadau sy'n trochi gwylwyr ym myd newydd yr 'Anthropocene', gan ddarparu ymdeimlad o raddfa, disgrychiant, ac effaith. Lansiodd y prosiect 'Anthropocene' ym mis Medi 2018 ac yn cynnwys

arddangosfa amgueddfa deithiol, grŵp newydd o ffotograffau *Burtynsky*, ffilm ddogfennol, profiadau rhyngweithiol mewn reality estynedig a rhithwir, llyfr celfyddydol wedi'u cyhoeddi gan *Steidl* a rhaglen addysgol gynhwysfawr (*Burtynsky, dyddiad anhysbys*).

Prif gynnwys y llyfr yw ffotograffau gan *Edward Burtynsky*, ochr yn ochr gyda thraethodau ef, *Jennifer Baichwal*, a *Nicholas de Pencier*. Mae hefyd trosolwg gan y gwyddonwyr Gweithgor Anthropocene, *Jan Zalasiewicz*, a *Colin Waters* yn ogystal â gwaith newydd gan yr awdur a bard *Margaret Atwood*. Fel grŵp, maent yn credu bydd ymgysylltiad trochi, arbrofol gyda'r gwaith yn newid ymwybyddiaeth rhai, a helpu tyfu'r ddadl gynyddol amgylcheddol (*Burtynsky, dyddiad anhysbys*).



Ffigur 1: Edward Burtynsky, Makoko #2, Lagos, Nigeria, 2016

Mae *Burtynsky* yn meddwl am ei ymglymiad gyda'r 'Anthropocene' fel estyniad cysyniadol o'i diddordebau cynharaf a fwyaf sylfaenol fel ffotograffydd. Ei

fwriad yw dangos yr effaith anferthol rydym yn cael ar y Ddaear trwy chwilio am systemau raddfa fawr sy'n gadael marciau amlwg (*Burtynsky, dyddiad anhysbys*).



Figur 2: Edward Burtynsky, Greenhouses #2, El Ejido, Southern Spain, 2010

Yn ôl *Burtynsky*, daeth ei ddealltwriaeth gynharaf o amser dwfn a'n perthynas gyda hanes daearegol y blaned o'i angerdd dros fod ym myd natur. Gwelodd yn glir fod dynoliaeth wedi achosi newidiadau byd-eang aruthrol. Cred *Burtynsky* ein bod ar drothwy fod yn achosi chweched digwyddiad difodiant mawr. (*Burtynsky, dyddiad anhysbys*)

Amgylchedd

Mae pryderon o amgylch dirywiad amgylchedd ein Daeare yn codi ac yn cael ei thrafod fwy gan unigolion â llwyfannau eang. Ar un llaw, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn targedu pobl i wella'n ffordd o fyw er lles y ddaear, ond ar law arall

mae'r "dylanwadwyr" yn hyrwyddo ac yn denu llifogydd o bobl i leoliadau o harddwch.



Ffigur 3: Catrin Nia Rees, 2021

Yn ddiweddar, mae nifer o bobl wedi bod yn ymweld â chronfa ddŵr Brombil ym Mhort Talbot, sy'n achosi problemau lleol. Mae erthygl gan y *BBC* yn sôn am y problemau. Yn ôl cyngor Castell-nedd Port Talbot, y prif reswm mae nifer o bobl yn ymweld â'r gronfa ddŵr glas yw cipio llun i rannu ar gyfryngau cymdeithasol. Nid yw'r cyngor yn hyrwyddo Brombil, sydd dan berchnogaeth breifat, ond nid yw hyn wedi cadw'r torfeydd i ffwrdd. Hyd yn oed ar ôl paentio llinellau melyn ar hyd strydoedd preswyl cyfagos, mae twf enfawr yn ymwelwyr, sydd hefyd wedi arwain at fwy o sbwriel, gan gynnwys baw cŵn. Mae'r cyngor a heddlu wedi gofyn i bobl i aros i ffwrdd o'r lleoliad tra bod datrysiad yn cael ei weithio arno. (*BBC, 2021*)



Ffigur 4: Heddlu De Cymru, 2021

Mae Tulum ym Mecsico yn esiampl o leoliad ymhellach i ffwrdd sy'n gweld effaith ar ei amgylchedd o achos y nifer a math o bobl sy'n cael eu denu yno. Mae traethau heddychlon Tulum wedi cwmpo'n dioddefwyr i'r 'dylanwadwyr' Instagram a'r gwneuthurwyr arian cyfoethog. Wnaeth Ibiza rhoi ei hun i'r DJ's a Mykonos hefyd yn cwmpo'n dioddefwr i Instagram. Mewn llai na degawd, trawsnewidiodd Tulum o draeth i'r fforwyr i'r arhosfan nesaf ar ôl Ibiza ar y gylched parti. Mae'r mewnlifiad o osodwyr jet cyfoethog, a'r bobl sy'n eu hedmygu a dilyn ar gyfryngau cymdeithasol, wedi dod ag llawer o arian wrth achosi dioddefaint gyda llawer fwy o weithgaredd dynol nag beth mae'r ardal wedi'i adeiladu ar gyfer. (Wiedeman, 2019)



Ffigur 5: Sam Youkilis, The crowd on the beach



Ffigur 6: Sam Youkilis, The town landfill in the jungle

Nid oes pŵer ar y traeth sy'n meddwl fod nifer o eneraduron disel yn rhedeg trwy'r dydd a nos. Nid oes system garthffos ddigonol, ac felly mae gwastraff dynol wedi bod yn trwytholchi i'r cyflenwad dŵr o dan Tulum ac allan i'r cefnfor, gan ladd y riff cwrel ar ei ffordd. Fel gwelwch yn ffigur 6, mae'r safle tirlenwi yn llawn, cafodd safle newydd ei hadeiladu ond roedd yn gorlifo erbyn 18 mis. (Wiedeman, 2019)




Ffigur 7: Sam Youkilis, A seaweed dump

Wnaeth gwymon ddechrau golchi lan yn 2015 yn tywyllu'r dŵr. Cafodd pysgod a chreaduriaid môr eraill eu cymysgu ynghanol y pentyrrau o wymon oedd yn arogl fel wyau ar y traeth. Efallai cafodd ei achosi gan ddatblygiadau yn yr Amason, ond, medd rhai bod natur wedi cael digon, Roedd dyn lleol yn cofio gweld y gwymon ar ran glan y traeth ar ôl parti gwyllt y noson gynt. Er bod y gwymon yn broblem yn rhannau eraill o'r Caribïaidd, gall cael effaith ar ddelwedd Tulum fel paradwys berffaith Instagram. (Wiedeman, 2019)

Er bod llawer o bobl yn defnyddio'i llwyfan er mwyn hyrwyddo lleoliadau harddwch, efallai heb sylwi'r effaith negyddol mae denu nifer o bobl i un lle'n cael, mae yna rhai sy'n defnyddio'i llwyfan er mwyn codi ymwybyddiaeth.

Esiampl o unigolyn sy'n gweithio i dangos y peryg i'r amgylchedd yw *Daniel Beltra*. Mae'n cyfleu'r harddwch a bregusrwydd y byd naturiol yn ei ffotograffau o

dirweddau naturiol a bywyd gwyllt, Mae'n dueddol o gyfuno delweddau haniaethol gyda manylion brawychus o'n byd mewn peryg (*Art Works For Change, 2015*). Mae'n darganfod ei ysbrydoliaeth yn harddwch a chymhlethdod natur gan ddangos pryder ein hecosystemau trwy gydol ei waith (*Beltra, dyddiad anhysbys*). Trwy ffotograffu o'r awyr, gall *Beltra* bwysleisio fod ein Daear a'i hadnoddau'n gyfyngedig (*Beltra, dyddiad anhysbys*).




Ffigur 8: Daniel Beltra, Indonesia Rainforest, 2009. 48" x 72"

Mae'r ddelwedd uchod (*Ffigur 8*), yn dangos coedwigoedd law Indonesia. Mae colli cynefinoedd yn fygythiad mawr i'r rhai sy'n byw yno, ac yn yr achos o ddatgoedwigo i fwyngloddio glo, mae'r golled o goed yn cael effaith digonol ar newid yn yr hinsawdd. Mae'n creu effaith uniongyrchol ar allu ein planed i amsugno allyriadau carbon deuocsid ac mae'r defnyddwyr terfynol sy'n llosgi glo yn ychwanegu mwy o nwyon tŷ gwydr i'r atmosffer (*Art Works For Change, 2015*). Ar

olwg gyntaf o'r ddelwedd, mae'n un o brydferthwch ac heddychlonrwydd. Trwy ddod â delweddau o leoliadau anghysbell lle mae diddordebau dynol a busnes, a natur yn groes, mae Beltra'n gobeithio cyfleu gwerthfawrogiad dyfnach o fyd natur a dealltwriaeth o'r cydbwysedd ansicr mae ein ffordd o fyw wedi rhoi ar y blaned (*Beltra, dyddiad anhysbys*).

Artist arall sy'n ymrwymo i dynnu sylw at faterion amgylcheddol a phryderon dynol yw *Agnes Denes*. Yn 1968 cafodd *Denes* "digwyddiad" symbolaidd a chyhoeddodd ei ymrwymiad, mae'r gwaith *Rice/Tree/Burial* yn cael ei hystyried fel y sylweddoliad ecolegol cyntaf o fewn celf gyhoeddus. (*Denes, 1976*)



Ffigur 9: Agnes Denes, Rice/Tree/Burial with Time Capsule, 1969-79

Wnaeth plannu reis cynrychioli cychwyn a thwf bywyd, tra bod y grawn yn dynodi'r niwclews, yr egwyddor, neu'r achos cyntaf, y dechreuad. (*Denes, 1976*)

Rhoddodd cadwyni o amgylch coed i ddynodi ymyrraeth gyda bywyd a phrosesau naturiol. Mae'r cadwyni yn dynodi cyswllt, hyblygrwydd ac ataliaeth, wnaeth y weithred o gadwyno'n dod â sylw i rym bywyd dirgel. Roedd cadwyni'r coed yn mynegi dewisiadau sy'n angenrheidiol yn y broses greadigol. (*Denes, 1976*)

Claddodd ei barddoniaeth i symboleiddio'r syniad neu gysyniad o'r haniaethol, yr absoliwt, y pwerau deallusol dynol, a'r greadigaeth ei hun. Roedd yn cynrychioli'r cysylltiad â diffiniad rhwng bywyd a marwolaeth. Ni chadwodd unrhyw gopiâu o'i barddoniaeth a trwy hynny'n "ildio i'r pridd", roedd yn weithred bersonol oedd yn symboleiddio hunanymwadiad a disgyblaeth. Mae'r tair gweithred yn awgrym o newid o un ffurf i'r llall. (*Denes, 1976*)

Ardrawiad Ffotograffwyr

Yn ei erthygl "*Is photography killing the environment*" mae *Robert Rittmuller* yn sôn am ei atgofion fel plentyn yn ymweld â'r Yucatan am y tro cyntaf. Ymwelodd *Rittmuller* â'r un lleoliad flynyddoedd wedyn ac roedd y newidiadau yn llwm. Mae adeiladau wedi'i gosodi rhwng yr adfeilion hynafol. Y jyngl dirgel bellach wedi'i dorri'n ôl i wneud y safle'n fwy ffotogenig. Mae effaith y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol wedi achosi newidiad yn ein hargraff. Cred *Rittmuller* fod "social media is only the symptom of a larger disease" (*Rittmuller, 2019*)

Roedd yn teimlo'r orfodaeth o gyfiawnhau'r gost camera trwy gynhyrchu cymaint o luniau ag y gallu. Mae Parciau Cenedlaethol yn gweld hi'n anodd ymdopi gyda'r holl dwristiaid sy'n pacio camerâu ac mae'r effaith wedi bod yn sylweddol. Mae lluo o bobl i gyd am gael y 'llun perffaith', gan wneud hi'n anodd iawn i unrhyw un fwynhau rhai o'r lleoliadau. Dywed *Rittmuller*, "*As photographers, we need to start taking some responsibility not just photos*". Mae gan ffotograffwyr cyfrifoldeb i

barchu'r amgylchedd, ond dylai'r gymdeithas gyfan weithio i gymhwyso canlyniad rhesymol lle mae'n bosib. (*Rittmuller, 2019*)

Mae erthygl *Aneesh Kothari* yn cwestiynu a ddylai ffotograffwyr tirwedd cael y siawns i archwilio a chipio'r un lleoliadau mae pawb yn weld ar gyfryngau cymdeithasol. Wrth i *Thomas Heaton* paratoi ar gyfer arwain cynhadledd ffotograffiaeth tirwedd, roedd yn sylwi fod un o'r lleoliadau yn y Bwa Mesa enwog. Daw'r enwogrwydd gyda chost, mae ffotograffwyr ar y cyd bob amser i gipio'r un ddelwedd. Yn y fideo "These photographers don't get it" (*Heaton, 2018*) mae *Heaton* yn trafod ei phrofiad o ymweld â'r Bwa Mesa. Mae'n awgrymu dylai ffotograffwyr tirwedd treulio amser i astudio a ddeall ei amgylched yn lle dilyn y torfeydd ar gyfer cipio'r un cyfansoddiad. Y bore roedd yna gyda'i grŵp, nid oedd y tywydd yn ffafriol i gipio'r ddelwedd enwog, felly, penderfynodd *Heaton* a'i grŵp i ganolbwyntio ar addasu i'r tywydd i ddatgelu posibiliadau newydd (*Kothari, 2018*).



Ffigur 10: Andy Goldsworthy, Sheets of ice. Wedged between river rocks. Dark elm leaves. Torn. Dumfriesshire, Scotland. 7 December 2005. 60 x 60 cm

Mae *Andy Goldsworthy* yn gerflunydd, ffotograffydd ac yn amgylcheddwr Prydeinig. Mae *Goldsworthy* yn defnyddio'r amgylchedd fel ei gynfas ond yn hytrach na'i ddinistrio, mae ar gais i fod yn agosach i natur. Gosodiadau safle-benodol yw beth mae *Goldsworthy* yn fwy adnabyddus am, trwy ddefnyddio beth bynnag sydd o'i amgylch. Wrth greu, mae'n gyntaf yn dod yn gyfarwydd gyda'i amgylchedd, yna, mae'n gwrando, arsylwi, ac yna'n creu. Mae'n cymryd y defnyddiau ac yn ei hailweirio yn ôl i'r amgylchedd mewn modd bwriadol ac yna'n gadael i'r amodau cael ei heffaith arnynt. Yn y modd yma, mae'n archwilio newidiad, wreiddioldeb, athreiddedd ac amherffeithrwydd. Ar ôl iddo orffen y darn mae'n ffotograffu'r hyn mae wedi creu er mwyn cadw cofnod. (*Taylor & Jacquot, dyddiad anhysbys*)

Mae *Benjamin Von Wong* yn unigolyn arall sy'n cael effaith positif ar yr amgylchedd trwy ei waith. Ar blaen ei wefan dywed "*Hi, I'm Von Wong, and i make your impact unforgettable*". Mae *Von Wong* yn artist sy'n ffocysu ar adael effaith positif trwy ei gwaith. Mae e a'i dim wedi bod yn helpu cwmnïau trosi eu gwerthoedd busnes i naratif bythgofiadwy. (*Von Wong, dyddiad anhysbys*)



Ffigur 11: Benjamin Von Wong, The Parting of the Plastic Sea, 2019 (Fideo: The Last Straw – ft. Steve Connell and The #Strawpocalypse)

Mae'r gosodiad uchod (Ffigur 11) wedi'i wneud allan o 168,000 gwellt plastig ail-law. Roedd am annog pobl i beidio defnyddio'i gwelltyn nesaf trwy greu "strawpocalypse", rhywbeth oedd mor fawr ni fydd unrhyw un yn gallu ei anwybyddu. Cynigiodd Zero Waste Saigon help, a gyda chymorth Starbucks Fietnam, a channoedd o wirfoddolwyr wnaeth ddod â'r prosiect i fyw o fewn 6 mis. Ei obaith oedd bod pawb yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gymryd cam tuag at ddefnyddio eu gwellt olaf. Mae'r broblem blasting naill ai allan o'r golwg ac allan o'r meddwl, neu'n hollol anweledig. Defnyddiodd celf i fwrw'r ddwy ochr trwy greu rhywbeth hardd ac unigryw allan o drasiedi amgylcheddol. (Von Wong, 2019)

Casgliad

Mae ymchwilio i'r pwnc yma wedi gwella fy ymwybyddiaeth ac agor fy llygaid i'r wir berygl ar y blaned o achos ein ffordd o fyw niweidiol. Wrth ystyried cwestiwn gorffenedig yn seiliedig ar fy ymchwil uchod, roeddwn i'n cael fy nenu tuag at ffocysu ar gyfraniad y byd celfydd i'r 'Anthropocene' a sut mae unigolion creadigol yn defnyddio'i llwyfan i godi ymwybyddiaeth neu ddylanwadu newidiadau. Bwriadaf wneud fwy o ymchwil i'r cyfnod 'Anthropocene' yn enwedig sut mae artistiaid a ffotograffwyr wedi effeithio arno.

Ar gyfer fy nhraethawd hyr byddaf yn ffocysu ar y cwestiwn- *I ba raddau ydy'r byd ffotograffiaeth yn cyfrannu at ein cyfnod cyfoes yn yr 'Anthropocene'?* Ni chredaf fod pob rhan o fy ymchwil yn cysylltu gyda'r cwestiwn yma, felly, bydd angen ailystyriaeth o'r ymchwil er mwyn sicrhau fod e'n berthnasol ar gyfer ateb y cwestiwn.

Llenyddiaeth

National Geographic Society. (2019) *Encyclopaedic Entry, Anthropocene*, National Geographic. Ar gael ar:

<https://www.nationalgeographic.org/encyclopedia/anthropocene/> (Cyrchiad ar: 24/04/21)

Beltrá, D. (Dyddiad anhysbys) *Daniel Beltrá- Artist Statement*, Daniel Beltrá. Ar gael ar: <https://danielbeltra.photoshelter.com/p/artist-statement> (Cyrchiad ar: 18/03/21)

Art Works for Change. (2015) *Daniel Beltrá- Explore the Gallery*. Art Works for Change. Ar gael ar: <https://www.artworksforchange.org/portfolio/daniel-beltra/> (Cyrchiad ar: 18/03/21)

Burtynsky, E. (Dyddiad anhysbys) *Anthropocene- Artist Statement*, Edward Burtynsky. Ar gael ar: <https://www.edwardburtynsky.com/projects/photographs/anthropocene> (Cyrchiad ar: 24/03/21)

Burtynsky, E. (Dyddiad anhysbys) *The Anthropocene Project*, Edward Burtynsky. Ar gael ar: <https://www.edwardburtynsky.com/projects/the-anthropocene-project/> (Cyrchiad ar: 24/03/21)

Denes, A. (1976) *Agnes Denes- Rice/Tree/Burial with Time Capsule*, Dyfyniad o 'The Organic Notebook'. Ar gael ar: <http://www.agnesdenesstudio.com/works2.html> (Cyrchiad ar: 24/03/21)

Taylor, G & Jacquot, S. (Dyddiad anhysbys) *Andy Goldsworthy, British Sculptor, Photographer and Environmentalist*. Living Your Wild Creativity. Ar gael ar: <https://www.livingyourwildcreativity.com/art-gallery-1-mitchell-1> (Cyrchiad ar: 24/03/21)

“artfortheenvironment” (2016) *Nils Udo*, Art for the Environment, Eco Arts Europe. Ar gael ar: <https://ecoartseurope.wordpress.com/2016/06/01/nils-udo/> (Cyrchiad ar: 24/03/21)

Von Wong, B. (Dyddiad anhysbys) *Hi, I’m Von Wong and I Make your Impact Unforgettable*, Unforgettable, Von Wong. Ar gael ar: <https://unforgettablelabs.com/#start> (Cyrchiad ar: 24/03/21)

Rittmuller, R. (2019) *Is Photography Killing the Environment?*, Robert Rittmuller, Medium. Ar gael ar: <https://medium.com/@robert.rittmuller/is-photography-killing-the-environment-c5720cbf778e> (Cyrchiad ar: 23/03/21)

Wiedeman, R. (2019) *Who Killed Tulum? Greed, gringos, diesel, drugs, shamans, seaweed, and a disco ball in the jungle*, The Cut, Vox Media. Ar gael ar: <https://www.thecut.com/2019/02/who-killed-tulum.html> (Cyrchiad ar: 23/03/21)

Kothari, A. (2018) *Don’t Follow the Herd: Should Landscape Photographers Explore?*, Fstoppers. Ar gael ar: <https://fstoppers.com/landscapes/dont-follow-herd-should-landscape-photographers-explore-300383> (Cyrchiad ar: 23/03/21)

Roupheal, A.B & Inglis, G.J. (2000:281-287) “*Take only photographs and leave only footprints?*”: An experimental study of the impacts of underwater photographers on coral reef dive sites, Biological Conservation, Volume 100, Issue 3, 2001. Ar gael ar: [https://doi.org/10.1016/S0006-3207\(01\)00032-5](https://doi.org/10.1016/S0006-3207(01)00032-5) (Cyrchiad ar: 24/03/21)

Lewis, S.L & Maslin, M.A. (2015) *Defining the Anthropocene*, Nature, Vol. 519 Issue 7542, 2015:171-180. Ar gael ar: <https://search.ebscohost.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/login.aspx?direct=true&db=aph&AN=101513495&site=ehost-live>. (Cyrchiad ar: 25/04/21)

Hatherley, O. (2018) “*Edward Burtynsky is one of the most interesting photographers of buildings*”, Dezeen Magazine. Ar gael ar: <https://www.dezeen.com/2018/06/15/edward-burtynsky-photography-water-matters-landscapes-buildings/> (Cyrchiad ar: 27/04/21)

National Gallery of Canada. (2018) *Meet the artists of Anthropocene*, YouTube. Ar gael ar: <https://www.youtube.com/watch?v=WYWCrsXXxQg&t=116s> (Cyrchiad ar: 28/04/21)

Kinolorber. (2019) *Anthropocene- Official U.S. Trailer*, YouTube. Ar gael ar: <https://www.youtube.com/watch?v=ikMlCxzO-94&t=2s> (Cyrchiad ar: 28/04/21)

BBC (2021) *Brombil reservoir: Margam residents angered by visitor influx*, BBC News. Ar gael ar: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56933584> (Cyrchiad ar: 30/04/21)

Heaton, T. (2018) *These Photographers Don't Get it*, YouTube. Ar gael ar: <https://www.youtube.com/watch?v=lalx3IP6-v8> (Cyrchiad ar: 23/03/21)

Artnet. (Dyddiad anhysbys) *Artnet Artists, Andy Goldsworthy*. Ar gael ar: <http://www.artnet.com/artists/andy-goldsworthy/sheets-of-ice-wedged-between-river-rocks-dark-elm-a-CCsSZKjcERT4Q02b7ym9QA2> (Cyrchiad ar: 03/05/21)

Von Wong, B. (2019) *"The Parting of the Plastic Sea" an installation made from 168,000 used plastic straws*, Von Wong. Ar gael ar: <https://blog.vonwong.com/strawpocalypse/> (Cyrchiad ar: 24/03/21)

VonWong. (2019) *The Last Straw – ft. Steve Connell and The #Strawpocalypse*, YouTube. Ar gael ar: <https://www.youtube.com/watch?v=2AM3x8z9xjE> (Cyrchiad ar: 24/03/21)